# Arolygiad Dilynol o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa'r Sarn / Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 5 Medi 2018

Dyddiad cyhoeddi: 6 Rhagfyr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.hiw.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78964-541-5



(h) Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

    Ansawdd profiad y claf ........ 11

    Darparu gofal diogel ac effeithiol ........ 17

    Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 23

4. Beth nesaf? ........ 28

5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol ........ 29

    Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 30

    Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol ........ 31

    Atodiad C – Cynllun gwella ........ 33

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Trwy ein gwaith ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa'r Sarn, Heol y Meinciau, Pont-iets, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5TR, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 5 Medi 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau reolwr arolygu AGIC (yr oedd un ohonynt yn arwain yr arolygiad), un adolygwr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygydd lleyg (sydd hefyd yn aelod o staff AGIC).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod y bwrdd iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn erbyn y gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad yn 2017. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd wedi mynd i'r afael â rhai gwelliannau a bod angen gwneud gwaith ychwanegol o hyd er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal.

Nodwyd gennym fod tîm rheoli'r practis yn ymrwymedig i wneud newidiadau cadarnhaol er budd staff a chleifion, a bod angen cymorth, arweinyddiaeth ac arweiniad y bwrdd iechyd arno er mwyn sicrhau bod pob un o'r argymhellion yn cael eu cyflawni.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol
- Roedd system well wedi'i chyflwyno i fonitro atgyfeiriadau cleifion a chyfathrebu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau
- Roedd trefniadau ar gyfer storio gwastraff wedi'u rhoi ar waith
- Roedd rhai gwelliannau wedi'u gwneud o ran cofnodion cleifion
- Roedd prosesau mwy cadarn wedi'u rhoi ar waith ar gyfer recriwtio a hyfforddi staff

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cwblhau'r gwelliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad ym mis Mai 2017
- Gwybodaeth i gleifion ynghylch y gwasanaeth hebryngwr a Fy Iechyd Ar-lein
- Caiff rhaglen cynnal a chadw ei nodi'n glir a'i chwblhau o fewn yr amserlen y cytunir arni
- Bydd statws imiwneiddio pob aelod o staff sy'n gweithio yn y practis yn cael ei goladu fel mater o flaenoriaeth

- Trefniadau ar gyfer storio cyffuriau'n ddiogel yn y practis
- Gwiriadau cyflogaeth perthnasol ar gyfer staff er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel i'w cyflogi o hyd
- Cwblhau hyfforddiant gorfodol, a nodi hyfforddiant sy'n benodol i'r swydd ar gyfer staff
- Ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn briodol i anghenion unigol y practis.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Cynhaliodd AGIC ei harolygiad diwethaf o Feddygfa'r Sarn ar 16 Mai 2017.

Roedd y meysydd allweddol i'w gwella a nodwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Rhaid i systemau apwyntiadau'r practis ddiwallu anghenion y boblogaeth mae'n ei gwasanaethu.
- Mae angen i'r practis sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r system hebryngwr a bod y staff yn derbyn hyfforddiant priodol i gofnodi eu presenoldeb fel hebryngwyr.
- Dylai'r practis ddefnyddio system Fy Iechyd Ar-lein yn fwy ac annog cleifion i ddefnyddio'r cyfleuster.
- Mae angen i'r practis nodi aelod neu aelodau o staff i fynd ar drywydd atgyfeiriadau a chanlyniadau profion.
- Mae angen i'r practis ystyried gwella hygyrchedd i gleifion sydd ag anawsterau symudedd.
- Mae angen i'r practis ddatblygu rhaglen o waith cynnal a chadw ac adnewyddu.
- Rhaid i'r meddygon teulu gadw cyfrinachedd cleifion bob amser.
- Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wastraff clinigol yn cael ei storio mewn cynhwysydd diogel wedi'i gloi hyd nes y caiff ei gasglu a'i waredu'n ffurfiol.
- Dylai meddygon teulu geisio sicrhau bod meddyginiaeth a ragnodwyd yn cael ei chysylltu â'r cod READ cywir lle bynnag y bo'n bosibl.
- Rhaid i'r practis fod yn gyson ac yn glir wrth ddefnyddio codau READ a dylai clinigydd fod yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith.
- Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cydymffurfio â safonau'r Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol (NCAS), a fydd yn caniatáu i staff locwm gynllunio gofal yn ddiogel ar sail y nodiadau clinigol.

- Mae angen i'r practis ystyried moderneiddio'i systemau gwaith dyddiol.
- Mae angen i'r practis ddatblygu cynllun datblygu practis.
- Mae angen i'r practis sicrhau bod proses recriwtio gadarn ar waith sy'n cynnwys cynnal gwiriadau cefndir ffurfiol ar ddarpar gyflogeion a'r cyflogeion presennol.
- Mae angen i'r practis sicrhau bod swydd-ddisgrifiadau a chontractau cyflogaeth ar waith.
- Mae angen i reolwr y practis ddatblygu matrics hyfforddiant sy'n amlinellu dyddiadau hyfforddiant i'r staff a phwy sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant.
- Mae angen i reolwr y practis ddatblygu rhaglen arfarnu flynyddol sy'n amlinellu anghenion hyfforddiant unigol.

Diben yr arolygiad hwn oedd gwneud gwaith dilynol ar y gwelliannau uchod a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf ym mis Mai 2017.

Ar hyn o bryd, mae Meddygfa'r Sarn yn darparu gwasanaethau i tua 4,262 o gleifion yn ardal Pont-iets. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri meddyg teulu, un ymarferydd nyrsio a dwy nyrs rhan amser. Disgwylir i un o'r ddwy nyrs adael y practis yn fuan gan adael un swydd wag ar gyfer nyrs. Mae nifer o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn gysylltiedig â'r practis hefyd, ac mae'n cyflogi rheolwr, dirprwy reolwr a staff gweinyddol.

Ym mis Medi 2017, rhoddodd y partneriaid meddygon teulu eu contract yn ôl i'r bwrdd iechyd ac, yn sgil hynny, dechreuodd y practis gael ei reoli gan y bwrdd iechyd.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Mân anhwylderau a damweiniau
- Gofal clwyfau a gorchuddion
- Gwiriadau monitro pwysedd gwaed
- Profion ceg y groth

- Cynllunio teulu
- Clinigau clefyd cronig (diabetes/ anadlol/ clefyd y galon ac ati)
- Brechiadau/cyngor teithio
- Mân lawdriniaethau

Er hwylustod, cyfeirir at Feddygfa'r Sarn fel y 'practis' drwy gydol yr adroddiad hwn.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i’n dull o arolygu.*

Nodwyd gennym fod staff y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Er bod rhai gwelliannau wedi'u cwblhau, roedd angen rhoi sylw i rai eraill er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau Iechyd a Gofal.

### Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

*Gofal gydag urddas*

- Mae angen i'r practis sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r system hebryngwr a bod y staff yn derbyn hyfforddiant priodol i gofnodi eu presenoldeb fel hebryngwyr.

*Cyfathrebu'n effeithiol*

- Mae angen i'r practis sicrhau bod taflen y practis yn cynnwys gwybodaeth gyfredol.

*Gofal amserol*

- Dylai'r practis ddefnyddio system Fy Iechyd Ar-lein yn fwy ac annog cleifion i ddefnyddio'r cyfleuster.
- Mae angen i'r practis nodi aelod neu aelodau o staff i fynd ar drywydd atgyfeiriadau a chanlyniadau profion.

*Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth*

- Mae angen i'r practis ystyried gwella hygyrchedd i gleifion sydd ag anawsterau symudedd.

*Gwrando a dysgu o adborth*

- Mae angen i'r practis archwilio canlyniadau'r system newydd ar gyfer trefnu apwyntiadau i weld a yw'n diwallu anghenion y cleifion.
- Mae angen i'r practis sicrhau bod y polisi cwynion a'r taflenni Gweithio i Wella ar gael i'r cleifion fynd â nhw adref.

## Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 13 Rhagfyr 2017:

*Gofal gydag urddas*

- Gosod posteri yn yr ystafell aros

*Cyfathrebu'n effeithiol*

- Diweddaru taflen y practis

*Gofal amserol*

- Cynhyrchu llenyddiaeth, posteri, eu rhoi ar y wefan, hysbysu'r Grŵp Cyfranogiad Cleifion er mwyn helpu i roi cyhoeddusrwydd i Fy Iechyd Ar-lein
- Clerc Codau READ/Sganio i fod yn gyfrifol am wneud gwaith dilynol mewn perthynas â chanlyniadau profion bob dydd. Sicrhau bod llythyrau wedi'u hanfon at bob claf ar y rhestr. Gwirio atgyfeiriadau brys ar gyfer canser drwgdybiedig.

*Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth*

- Trefnu ymweliad â'r safle gyda'r Adran Ystadau er mwyn edrych ar yr holl welliannau, hygyrchedd yn benodol.

*Gwrando a dysgu o adborth*

- Newidiwyd y system apwyntiadau eto yn unol â'r gwasanaeth ymgynghori dros y ffôn a gyflwynwyd ym mis Tachwedd. Caiff arolygiad ei gynnal pan fydd hyn wedi cael ei ymgorffori'n llawn ac y mae'r problemau cychwynnol wedi'u datrys.
- Sicrhau bod taflenni ar gael yn yr ardal aros.

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

*Gofal gydag urddas*

Nodwyd gennym fod y practis wedi gosod posteri yn yr ardal aros yn hysbysu cleifion o'r gwasanaeth hebryngwr. Roedd tri aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hebryngwr. Fodd bynnag, roedd un aelod o'r staff wedi gadael y practis yn ddiweddar. Argymhellwyd lle y gellid gwneud gwelliannau ychwanegol.

*Cyfathrebu'n effeithiol*

Nodwyd gennym fod y practis wedi diweddaru'r daflen wybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn yr ardal aros i gleifion ei darllen a mynd â hi adref gyda nhw. Roedd y daflen hefyd ar gael mewn print bras ar gyfer cleifion â nam ar eu golwg.

*Gofal amserol*

Nodwyd gennym fod y gwelliant o ran defnyddio Fy Iechyd Ar-lein[1] yn mynd rhagddo a bod angen cymryd camau gweithredu pellach. Ni welsom fod unrhyw lenyddiaeth neu bosteri ar Fy Iechyd Ar-lein ar gael yn y feddygfa. Soniodd y feddygfa wrthym yn ei chynllun gwella y byddai'n defnyddio ei grŵp cyfranogiad cleifion er mwyn helpu i hysbysebu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid oes gan y practis grŵp o'r fath. Gwelsom fod Fy Iechyd Ar-lein yn cael ei nodi yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis, ond dim ond mewn perthynas ag archebu presgripsiynau amlroddadwy.

Roedd y practis wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran sicrhau bod camau dilynol amserol yn cael eu cymryd mewn perthynas ag atgyfeiriadau cleifion a chanlyniadau profion. Nodwyd gennym fod aelod o'r staff wedi cael ei benodi i sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd mewn perthynas â chanlyniadau profion ac atgyfeiriadau.

*Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth*

Yn ystod taith o'r practis, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod mynediad i'r adeilad wedi'i wella ar gyfer y rheini ag anawsterau symudedd. Nodwyd gennym fod tîm

[1] https://www.myhealthonline-inps.wales.nhs.uk/mhol/home.jsp

rheoli'r practis wedi gwneud ymdrech i ymgysylltu â thîm ystadau'r bwrdd iechyd i wneud gwelliannau i'r adeilad. Fodd bynnag, nid oedd y gwelliannau hyn wedi cael eu cwblhau er gwaethaf ymdrechion y tîm.

*Gwrando a dysgu o adborth*

Nid oedd y practis wedi cynnal archwiliad o'r system newydd ar gyfer trefnu apwyntiadau a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2017, fel y nodwyd yn ei gynllun gwella.

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am y broses Gweithio i Wella[2] ar gael i gleifion yn yr ardal aros.

Cyn yr arolygiad, rhoddwyd holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf am dros ddwy flynedd). Gwnaethom hefyd siarad â nifer o gleifion yn ystod yr arolygiad. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

> *"Mae'r system apwyntiadau newydd yn llawer gwell na gorfod eistedd am awr neu ddwy yn aros i weld y meddyg teulu. Mae cleifion sy'n wirioneddol sâl yn cael gweld y meddyg teulu yn gyflymach. Does neb yn gwastraffu amser, yn galw i mewn i weld y meddyg teulu bob wythnos."*
>
> *"Dwi'n teimlo bod y gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Yr unig siom yw'r amser y mae'n rhaid aros i gael apwyntiad - mae tair wythnos yn amser hir."*
>
> *"Mae'r gwasanaeth brysbennu yn dda iawn. Mae'n wych gwybod bod modd siarad â meddyg bob dydd os oes angen. Mae'n rhoi tawelwch meddwl i fi."*

[2] http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932

*"Mae'r staff a'r meddygon yn dda iawn. Pryd bynnag y mae'n rhaid i mi eu gweld ar frys maen nhw'n wych, dwi byth wedi cael fy ngwrthod. Diolch."*

Cyfeiriodd cleifion eraill at rai meysydd lle'r oeddent yn ystyried y gallai gwelliannau gael eu gwneud, megis:

*"Mynd ar-lein i drefnu apwyntiad. Pam bod yn rhaid i mi aros 14 diwrnod am apwyntiad pan fod angen i mi weld meddyg yn gynt na hynny*."

*"Drwy sicrhau bod apwyntiadau yn haws eu trefnu gyda'r meddyg teulu rydych am ei weld."*

*"Mwy o ryngweithio ar-lein, ymgyngoriadau fideo efallai. Mwy o apwyntiadau iechyd i fonitro cyflyrau cronig."*

## Canfyddiadau ychwanegol

### Gofal gydag urddas

Er bod posteri yn hysbysu'r gwasanaeth hebryngwr wedi cael eu gosod yn ardal aros y practis, argymhellwyd y dylai posteri gael eu gosod yn yr ystafelloedd triniaeth hefyd. Byddai hyn yn caniatáu i gleifion gael gwell mynediad at y wybodaeth hon er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn ag unrhyw driniaeth arfaethedig. Argymhellwyd hefyd y dylai staff ychwanegol gael hyfforddiant hebryngwr priodol er mwyn sicrhau bod y practis yn gallu cynnig y gwasanaeth hwn yn gyson, gan ganiatáu ar gyfer absenoldebau staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd wneud mwy i hyrwyddo'r gwasanaeth hebryngwr i gleifion a mynd ati i hyfforddi staff ychwanegol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth hebryngwr yn gallu cael ei gynnig yn gyson.

### Gofal amserol

Er i ni gydnabod yn ystod yr arolygiad bod rhai camau gweithredu cyfyngedig wedi'u cymryd, dylai'r bwrdd iechyd wneud mwy i hysbysebu'r holl gyfleusterau sydd ar gael i gleifion gan ddefnyddio Fy Iechyd Ar-lein.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd fynd ati i ddefnyddio a hyrwyddo Fy Iechyd Ar-lein er budd y practis a'i gleifion.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Er i ni nodi bod tîm rheoli'r practis yn mynd i'r afael â'r angen i wneud newidiadau i'r adeilad, h.y. gosod rheiliau dwylo y tu allan i'r adeilad ac yn y toiled i bobl anabl, nid oeddem yn gallu gweld bod y gwaith hwn wedi'i gyflawni gan y bwrdd iechyd. Awgrymwyd bod angen cynnal asesiad o hygyrchedd y practis er mwyn sicrhau bod modd nodi'r gwelliannau cywir a'u cynllunio'n briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cynnal asesiad o ba mor hygyrch yw adeilad y practis, gan ystyried camau i wella gwasanaethau a rhoi mynediad i gleifion.

### Gwrando a dysgu o adborth

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ei ymrwymiad i gynnal archwiliad o'r system apwyntiadau yn cael ei gyflawni er mwyn gwerthuso a yw'n diwallu anghenion y cleifion. Nododd dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oedd y profiad o drefnu apwyntiad "yn hawdd o gwbl".

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd gynnal archwiliad o effeithiolrwydd y system trefnu apwyntiadau i weld a yw'n diwallu anghenion y cleifion.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd tîm rheoli'r practis wedi gwneud ymdrech i ddangos ei fod wedi mynd i'r afael â'r gwelliannau a nodwyd. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd pob gwelliant wedi'i gwblhau. Nodwyd bod angen cymorth gan y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod rhai gwelliannau yn cael eu cwblhau.

Nodwyd nifer o welliannau ychwanegol hefyd yr oedd angen i'r bwrdd iechyd fynd i'r afael â nhw.

### Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

*Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch*

- Mae angen i'r practis ddatblygu rhaglen o waith cynnal a chadw ac adnewyddu.
- Rhaid i'r meddygon teulu gadw cyfrinachedd cleifion bob amser.

*Atal a rheoli heintiau a dihalogi*

- Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wastraff clinigol yn cael ei storio mewn cynhwysydd diogel wedi'i gloi hyd nes y caiff ei gasglu a'i waredu'n ffurfiol.
- Rhaid i'r practis ddarparu tystiolaeth o'r gofrestr sy'n cofnodi statws imiwneiddio staff.

*Rheoli meddyginiaethau*

- Dylai meddygon teulu geisio sicrhau bod meddyginiaeth a ragnodwyd yn cael ei chysylltu â'r cod READ[3] cywir lle bynnag y bo'n bosibl.

*Cadw cofnodion*

- Rhaid i'r practis fod yn gyson ac yn glir wrth ddefnyddio codau READ a dylai clinigydd fod yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith.

- Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cydymffurfio â safonau'r Gwasanaeth Asesu Clinigol Cenedlaethol (NCAS), a fydd yn caniatáu i staff locwm gynllunio gofal (yn ddiogel?? - ddim yn yr adroddiad blaenorol) ar sail y nodiadau clinigol.

## Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

*Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch*

- Trefnu ymweliad â'r safle gyda'r Adran Ystadau.

- Caiff yr enghraifft a nodwyd ac a ddatryswyd ei monitro er mwyn sicrhau nad yw'n digwydd eto.

*Atal a rheoli heintiau a dihalogi*

- Trefnu contract gyda Chwmni Gwastraff Clinigol, biniau yn cael eu darparu.

- Y gofrestr i'w gweithredu a'i diweddaru'n gyson.

*Rheoli meddyginiaethau*

- I gael ei fonitro'n rheolaidd gan yr Arweinydd Clinigol (cod READ wedi'i gysylltu â'r feddyginiaeth a ragnodwyd).

---

[3] Codau READ yw'r system terminoleg glinigol safonol a ddefnyddir gan feddygon teulu yn y Deyrnas Unedig.

*Cadw cofnodion*

- I gael ei fonitro'n rheolaidd gan yr Arweinydd Clinigol (defnydd cyson o godau READ).

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

*Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch*

Yn ystod taith o'r practis, nodwyd gennym fod nifer o faterion yn ymwneud â'r ystad yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Nodwyd bod tîm rheoli'r practis wedi cysylltu ag adran ystadau'r bwrdd iechyd sawl gwaith yn gofyn i waith gael ei wneud. Fodd bynnag, nid oedd yr adran wedi mynd i'r afael â llawer o'r gwaith o hyd. Nid oedd yn glir p'un a oedd yr adran ystadau wedi ymweld ai peidio.

Gwnaethom edrych yn yr ystafelloedd triniaeth ac nid oedd unrhyw gofnodion na gwybodaeth am gleifion wedi'u gadael yn amhriodol i bobl eu gweld.

*Atal a rheoli heintiau a dihalogi*

Gwelsom fod bin mawr y gellir ei gloi ar gael i'r practis storio gwastraff clinigol cyn iddo gael ei gasglu, a daethom i'r casgliad bod y gwelliant hwn wedi'i gwblhau.

Drwy drafodaethau a gafwyd gyda thîm rheoli'r practis, ni welsom fod cofrestr sy'n cofnodi statws imiwneiddio staff wedi'i chwblhau. Soniwyd wrthym fod y tîm wedi dechrau casglu'r wybodaeth hon gan y staff, ond bod y broses honno'n mynd rhagddi o hyd. Nodwyd gennym fod angen cwblhau'r cam gweithredu hwn fel mater o flaenoriaeth.

*Rheoli meddyginiaethau*

Ystyriwyd nifer o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad ac, er i ni nodi bod rhai meysydd o arfer da o ran cysylltu codau READ â meddyginiaethau a ragnodwyd, nodwyd hefyd nad oedd hyn yn digwydd yn gyson mewn rhai cofnodion. Er bod y gwelliant hwn yn mynd rhagddo o hyd, daethom i'r casgliad ei fod yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan arweinydd clinigol y practis.

*Cadw cofnodion*

O ran y sampl o gofnodion cleifion a ystyriwyd gennym, gwelsom fod y broses o gadw cofnodion yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nodwyd bod angen i godau READ gael eu defnyddio'n fwy cyson gan bob un o'r clinigwyr sy'n gweithio yn y practis. Nodwyd gennym fod yr arweinydd clinigol yn cymryd cyfrifoldeb dros oruchwylio'r defnydd o godau READ er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gyson. Argymhellwyd y gellid gwneud gwelliannau pellach.

## Canfyddiadau ychwanegol

### Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn ystod taith o'r practis, gwelsom fod gwaith wedi'i wneud yn ddiweddar i symud y sinc yn y toiled i gleifion. Fodd bynnag, yn sgil y gwaith hwn, roedd rhannau o'r wal lle'r oedd y teils wedi cael eu symud yn y golwg, ac roedd gan rai o'r teils a oedd yn weddill ochrau miniog. Nid oedd y cyflenwad trydan i'r tap dŵr poeth yn y toiled i gleifion yn gweithio ychwaith. Roedd hyn yn golygu mai dim ond â dŵr oer yr oedd cleifion yn gallu golchi eu dwylo. Er bod y toiled yn ddigon mawr ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd a/neu gleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn, nid oedd rheilen law ar gael.

Roedd y materion amgylcheddol eraill a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad yn cynnwys y canlynol:

- Yn ardal swyddfa'r practis roedd rhan fawr o garped â thwll ynddi y gallai pobl faglu drosti.
- Nid oedd y cysgodlenni yn nifer o'r ystafelloedd triniaeth yn cau'n briodol ac felly nid oeddent yn sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion.
- Mewn un ystafell driniaeth, nid oedd y llenni o amgylch y gwely yn dafladwy. Gallai hyn eu hatal rhag cael eu glanhau'n effeithiol.
- Gwelsom fod perygl baglu posibl y tu allan i'r practis lle'r oedd y cerrig palmant wedi codi. Soniwyd wrthym fod aelod o'r staff wedi baglu drostynt ac wedi cwympo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Nodwyd bod tîm rheoli'r practis wedi gwneud ymdrech sylweddol i ymgysylltu ag adran ystadau'r bwrdd iechyd er mwyn gwneud cais i rywfaint o'r gwaith uchod gael ei gwblhau. Fodd bynnag, nid oedd y gwaith hwn wedi'i gwblhau o hyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhaglen o waith cynnal a chadw yn cael ei llunio a bod cynllun yn cael ei roi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion nad ymdriniwyd â nhw eto a materion newydd sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r ystadau.

## Atal a rheoli heintiau

Er i dîm rheoli'r practis sôn wrthym ei fod wrthi'n casglu cofnodion am statws imiwneiddio'r staff, ni welsom y cofnodion hyn. Nid yw'r gwelliant hwn wedi'i gwblhau eto ac mae angen mynd i'r afael ag ef fel mater o flaenoriaeth.

Cododd rhai aelodau o'r staff bryderon am yr amser a oedd yn cael ei neilltuo i lanhau'r practis, gan egluro mai dim ond un aelod o'r staff domestig a oedd yn cael ei gyflogi dros y penwythnos. Er bod pob un o dîm y practis yn ymgymryd â thasgau glanhau o ddydd i ddydd, roedd rhai aelodau o'r staff o'r farn nad oedd hyn yn ddigonol i sicrhau bod y practis yn cael ei lanhau'n drylwyr ac yn effeithiol.

Nodwyd bod disgwyl i aelod o dîm rheoli heintiau'r bwrdd iechyd ymweld â'r practis yn fuan ar ôl yr arolygiad ac argymhellwyd y dylai'r practis ofyn am gyngor am y waliau yn yr ystafelloedd triniaeth.  Gwelsom mai brisblociau wedi'u paentio oedd y waliau, a allai atal gwaith glanhau effeithiol. Cytunodd tîm rheoli'r practis i wneud hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fynd ati i lunio cofrestr sy'n cofnodi statws imiwneiddio staff er mwyn dangos bod y staff wedi cael y brechiadau priodol i'w diogelu nhw eu hunain a'r cleifion.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwerthuso trefniadau glanhau domestig y practis er mwyn sicrhau bod y trefniadau cyfredol yn addas ac yn golygu y gall y practis gael ei lanhau'n effeithiol ac yn drylwyr.

## Rheoli meddyginiaethau

Yn ystod taith o'r practis, gwelsom fod cwpwrdd cyffuriau wedi'i adael ar agor mewn un ystafell driniaeth. Er bod gan y cwpwrdd glo ac allwedd, nid oedd y drws wedi'i gloi. Aeth y practis i'r afael â hyn yn ddi-oed a symudwyd yr allweddi. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi proses briodol ar waith er mwyn

sicrhau bod yr holl gyffuriau a gedwir yn y practis yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig, ac i atgoffa'r staff o'r broses.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyffuriau yn cael eu storio'n ddiogel yn y practis er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.

### Gofal effeithiol

### Cadw cofnodion

Er i ni nodi bod gwelliannau wedi'u gwneud o ran y defnydd o godau READ, a bod rhai o'r cofnodion a ystyriwyd gennym yn rhai manwl, nodwyd bod meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau cysondeb ymhlith ymarferwyr, gan gynnwys:

- Manylion trylwyr a chywir o apwyntiadau cleifion. Gwelsom enghraifft lle nad oedd dyddiad yr apwyntiad yn cyfateb i'r manylion ar gofnod y claf.
- Mae'n rhaid i'r caniatâd a roddir ar gyfer triniaeth a/neu archwiliadau gael ei nodi yng nghofnodion cleifion.
- Mae'n rhaid i'r talfyriadau a ddefnyddir yng nghofnodion cleifion fod yn glir a dylent gael eu defnyddio'n gyson gan bob ymarferydd er mwyn osgoi camddealltwriaeth ac amwysedd.

Awgrymwyd y dylai'r bwrdd iechyd ystyried cynnal archwiliad o'r broses o gadw cofnodion er mwyn cefnogi'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno archwiliad o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau bod safon y cofnodion hynny'n parhau i wella a'u bod yn cydymffurfio â safonau a chanllawiau proffesiynol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd y practis yn elwa o gael gweithlu sefydlog ar adeg o newid sylweddol. Soniodd y staff wrthym fod cyfleoedd hyfforddi wedi gwella, a gwelsom fod y broses recriwtio ar gyfer staff newydd yn gadarn, gan gynnwys gwiriadau cyn cyflogaeth priodol.

Nodwyd gennym fod tîm rheoli'r practis wedi gwneud ymdrech i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol ond weithiau roedd yn cael ei lesteirio gan y bwrdd iechyd. Golygai hyn nad oedd modd iddo gwblhau'r holl welliannau a nodwyd, fel materion yn ymwneud â'r ystadau.

Argymhellwyd y dylai'r bwrdd iechyd ystyried y trefniadau rheoli sydd ar waith yn y practis er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu'r anghenion yn briodol.

### Pa welliannau a nodwyd

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

*Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd*

Mae angen i'r practis ystyried moderneiddio ei systemau gweithio o ddydd i ddydd.

Yn benodol;

- Y cyfathrebu ffacs presennol rhwng meddygon tu allan i oriau. Byddai'n gyflymach ac yn fwy diogel i wybodaeth gael ei throsglwyddo'n electronig.

- Roedd y practis yn agor rhwng 9am a 6pm, ond roedd y meddygon y tu allan i oriau yn gorffen am 8am ac yn dechrau am 6.30pm, a oedd yn golygu ei bod yn rhaid i'r practis gyflenwi'r adegau hynny. Byddai'n fuddiol pe bai rhagor o hyblygrwydd o ran amseroedd agor a chau'r practis.

- Dim system ar gyfer nodi cleifion newydd sy'n cael anhawster cael mynediad i'r practis.

- Mae angen i'r practis ddatblygu cynllun datblygu practis.

*Y gweithlu*

- Mae angen i'r practis sicrhau bod proses recriwtio gadarn ar waith sy'n cynnwys cynnal gwiriadau cefndir ffurfiol ar ddarpar gyflogeion a'r cyflogeion presennol.

- Mae angen i'r practis sicrhau bod swydd-ddisgrifiadau a chontractau cyflogaeth ar waith.

- Mae angen i reolwr y practis ddatblygu matrics hyfforddiant sy'n amlinellu dyddiadau hyfforddiant i'r staff a phwy sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant.

- Mae angen i reolwr y practis ddatblygu rhaglen arfarnu flynyddol sy'n amlinellu anghenion hyfforddiant unigol.

## Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

*Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd*

- Mae treial wedi cael ei gynllunio er mwyn i wybodaeth gael ei hanfon yn uniongyrchol at y system o'r gwasanaeth y tu allan i oriau.

- Bydd y feddygfa ar gael rhwng 8am a 6.30pm.

- Cyflwynir ffurflen gofrestru newydd ar gyfer cleifion newydd er mwyn nodi eu hanghenion o ran mynediad.

- Caiff Cynllun Datblygu Practis ei ddatblygu.

*Y gweithlu*

- Bydd y practis yn dilyn prosesau recriwtio (byrddau iechyd) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a bydd yr holl waith recriwtio yn cael ei wneud drwy system TRAC[4] sy'n sicrhau gwiriadau cyflogeion cadarn - geirdaon, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Caiff swydd-ddisgrifiadau a chontractau cyflogaeth eu llunio gan adran adnoddau dynol y bwrdd iechyd.
- Caiff matrics hyfforddi ei roi ar waith yn unol ag adolygiadau datblygu personol
- Bydd adolygiadau datblygu personol blynyddol yn cael eu cynnal gyda phob aelod o'r staff.

## Yr hyn a welsom yn ystod yr ymweliad dilynol

*Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd*

Gwelsom fod y practis yn defnyddio dulliau electronig nawr i gyfathrebu â meddygon y tu allan i oriau. Soniwyd mai dim ond fel opsiwn wrth gefn y caiff peiriannau ffacs eu defnyddio pan fydd problem gyda'r system.

Soniwyd wrthym fod y practis ar gael i gleifion rhwng 8.00am a 6.30pm, pan nad oedd y gwasanaeth y tu allan i oriau yn weithredol, a oedd yn golygu bod gwasanaeth parhaus ar gael i gleifion. Er nad oedd y practis ar agor yn ystod yr holl oriau hyn, gwelsom ei fod yn gallu rhoi cymorth i unrhyw glaf a oedd yn ffonio'r practis pan nad oedd ar agor.

Gwelsom fod y practis wedi llunio ffurflen gofrestru i gleifion newydd a oedd yn cynnwys cwestiynau am gleifion a fyddai'n helpu i nodi'r rheini a allai ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r gwasanaeth.

Roedd hi'n siomedig nodi nad oedd cynllun datblygu practis wedi'i roi ar waith, fel y nodwyd yn y cynllun gwella a gyflwynwyd.

*Y gweithlu*

---

[4] System monitro recriwtio electronig.

Roeddem yn fodlon bod gan y practis broses recriwtio gadarn ar waith ar gyfer recriwtio unrhyw aelodau newydd o staff. Cafodd ffeiliau personél rhai o'r staff (copïau caled ac electronig) eu hystyried yn ystod yr arolygiad a nodwyd bod y practis wedi defnyddio proses recriwtio briodol, gan gynnwys gwiriadau cyn cyflogaeth perthnasol.

Mewn sampl o ffeiliau personél y staff, gwelsom fod gan hen gyflogeion a chyflogeion newydd gontractau cyflogaeth. Gwelsom hefyd fod gan gyflogeion newydd (a gyflogwyd ers i'r practis gael ei drosglwyddo i'r bwrdd iechyd) swydd-ddisgrifiadau hefyd. Soniwyd wrthym fod swydd-ddisgrifiadau ar gyfer aelodau o'r staff hŷn wrthi'n cael eu drafftio ar sail unigol. Ystyriwyd bod y gwelliant hwn yn mynd rhagddo a bod angen iddo gael ei gwblhau.

Er i ni weld bod matrics hyfforddiant wedi'i nodi ar gyfer staff, dim ond hyfforddiant gorfodol a oedd yn cael ei gynnwys ynddo. Roedd yn siomedig nodi nad oedd y mwyafrif helaeth o'r hyfforddiant a nodwyd ar gyfer staff wedi'i gwblhau eto. Gwneir argymhelliad pellach ynglŷn â hyn.

Yn y sampl o ffeiliau personél staff a ystyriwyd gennym, gwelsom fod gwerthusiad priodol wedi'i gynnal.

## Canfyddiadau ychwanegol

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Drwy drafodaethau a gafwyd gyda thîm rheoli'r practis, nid oedd yn glir p'un a oedd cynllun datblygu practis wedi'i lunio'n flaenorol. Penderfynwyd bod angen cynllun datblygu practis newydd.

Nodwyd gennym fod rheolwr y practis yn gyfrifol am bractis arall a reolir gan y bwrdd iechyd yn yr un ardal. Drwy drafodaethau a gafwyd gyda'r staff a thîm rheoli'r practis, nodwyd nad oedd rheolwr y practis yn gallu ymrwymo i dreulio swm penodol o amser yn y practis hwn. Gallai hyn arwain at ddiffyg rheolaeth ac arweinyddiaeth yn y practis hwn. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried a yw'r trefniadau rheoli sydd ar waith yn y practis yn ddigonol i ddiwallu anghenion y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd ddatblygu cynllun datblygu practis.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu'r trefniadau rheoli sydd ar waith yn y practis er mwyn penderfynu a ydynt yn diwallu anghenion y practis.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Cafodd ffeiliau personél nifer o'r staff eu hystyried yn ystod yr arolygiad ac nid oeddem yn gallu gweld a oedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar nifer o'r staff. Drwy drafodaethau a gafwyd gyda thîm rheoli'r practis, daethom i'r casgliad bod y bwrdd iechyd wedi methu â chynnal y gwiriadau hyn pan drosglwyddwyd y practis i'r bwrdd iechyd yn 2017.

Er i ni weld bod matrics hyfforddiant cyffredinol wedi'i nodi ar gyfer staff sy'n gweithio yn y practis, roedd yn siomedig gweld bod y gyfradd gwblhau o ran hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd yn isel iawn ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff. Mae angen llunio cynllun gweithredu er mwyn galluogi staff i gwblhau'r hyfforddiant hwn. Yn sgil gwerthusiad blynyddol, argymhellwyd hefyd y dylai unrhyw anghenion hyfforddi ychwanegol a nodwyd gael eu cynnwys yn y matrics hyfforddiant.

Roedd yn siomedig nodi hefyd, ar ôl i'r practis gael ei drosglwyddo i'r bwrdd iechyd yn 2017, na wnaeth y staff a oedd wedi gweithio i'r bartneriaeth yn flaenorol elwa o sesiwn sefydlu'r bwrdd iechyd. O ganlyniad, nid oeddent wedi cael hyfforddiant cynhwysfawr ym meysydd fel systemau TG, gweithdrefnau a ffyrdd o weithio'r bwrdd iechyd. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y staff a gyflogwyd ar ôl mis Hydref 2017 wedi mynychu sesiwn sefydlu a oedd yn berthnasol i'r bwrdd iechyd cyfan.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau priodol wedi'u cynnal ar staff er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w cyflogi o hyd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC sut y bydd yn mynd ati i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rolau a'u dyletswyddau.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod yn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd neu'n rhai dirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw’r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy’n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o’r arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau a wnaed gan y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd penodol ar gyfer gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar Safonau Iechyd a Gofal 2015 sy'n berthnasol i'r meysydd hyn y byddwn yn canolbwyntio.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol byddwn yn ystyried agweddau perthnasol ar y canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Darparu gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd lle mae angen gwneud gwelliannau o hyd.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Yn ystod taith o'r practis, nodwyd nad oedd y cwpwrdd cyffuriau wedi'i gloi. | Roedd hyn yn golygu y gallai rhywun heb fynediad awdurdodedig fynd â'r cyffuriau. | Tynnwyd sylw tîm rheoli'r practis ac arweinydd clinigol y practis at hyn ar unwaith. | Aeth yr arweinydd clinigol ati ar unwaith i gloi'r cwpwrdd a rhoi'r allwedd mewn lle diogel. |

# Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth: Meddygfa'r Sarn

## Dyddiad arolygu: 5 Medi 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Teitl swydd:

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Meddygfa'r Sarn

## Dyddiad arolygu: 5 Medi 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r bwrdd iechyd wneud mwy i hyrwyddo'r gwasanaeth hebryngwr i gleifion a mynd ati i hyfforddi staff ychwanegol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth hebryngwr yn gallu cael ei gynnig yn gyson. | 4.1 Gofal Gydag Urddas | Yn ogystal â'r hysbysiad sydd wedi'i osod yn y dderbynfa, hysbysiadau pellach i'w harddangos yn glir yn ystafell pob clinigydd er mwyn hysbysu cleifion bod ganddynt yr hawl i ofyn am hebryngwr yn ystod eu hymgynghoriadau clinigol.<br><br>Trefnu hyfforddiant hebryngwr i staff | Dirprwy Reolwr y Practis | Cwblhawyd |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | ychwanegol er mwyn cynnig gwasanaeth cyson | Rheolwr y Practis | 31/01/2019 |
| Dylai'r bwrdd iechyd fynd ati i ddefnyddio a hyrwyddo Fy Iechyd Ar-lein er budd y practis a'i gleifion | 5.1 Mynediad amserol | Staff i gael hyfforddiant ar Fy Iechyd Ar-lein.<br><br>Sylw yn cael ei roi i wasanaeth Fy Iechyd Ar-lein yn ardal aros y Practis, ar y Wefan ac yn y daflen i gleifion. Y gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo gan y Fferyllfa leol.<br><br>Cleifion wedi dechrau manteisio ar y gwasanaeth. | Dirprwy Reolwr y Practis | Cwblhawyd |
| Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cynnal asesiad o ba mor hygyrch yw adeilad y practis, gan ystyried camau i wella gwasanaethau a rhoi mynediad i gleifion. | 6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth | Mae asesiad o hygyrchedd wedi'i gynnal gan y bwrdd iechyd ac mae'r landlord yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau risg uchel a nodwyd gan fod gan y bwrdd iechyd brydles atgyweirio fewnol.<br><br>Caiff cynllun gwella arall ei lunio ar gyfer yr adeilad cyfan gan gynnwys mynediad | Rheolwr y Practis/Dirprwy Reolwr y Practis | 30/11/2018 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | i'r cleifion hynny sydd ag anawsterau symud. Bydd y cynllun hwn yn dangos yn glir y gwelliannau ychwanegol sydd eu hangen, y camau cwblhau a phryd y cânt eu cwblhau. | Rheolwr y Practis/Dirprwy Reolwr y Practis | 30/11/2018 |
| Dylai'r bwrdd iechyd gynnal archwiliad o effeithiolrwydd y system trefnu apwyntiadau i weld a yw'n diwallu anghenion y cleifion. | 6.3 Gwrando a Dysgu o'r adborth | Bydd y Practis yn cynnal archwiliad o effeithiolrwydd y system trefnu apwyntiadau ac yn defnyddio'r adborth i wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. | Rheolwr y Practis/Dirprwy Reolwr y Practis | 31/12/2018 |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rhaglen o waith cynnal a chadw yn cael ei lunio a bod cynllun yn cael ei roi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion nad ymdriniwyd â nhw eto a materion newydd sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r ystadau. | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | Mae Rhestr o Waith Cynnal a Chadw Arfaethedig yn cael ei lunio ar y cyd â'r Tîm Gweithrediadau a rheolwr y practis er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. | Rheolwr y Practis/Dirprwy Reolwr y Practis | 30/11/2018 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fynd ati i lunio cofrestr sy'n cofnodi statws imiwneiddio staff er mwyn dangos bod y staff wedi cael y brechiadau priodol i'w diogelu nhw eu hunain a'r cleifion.<br><br>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwerthuso | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Cwblhau Cofnod o Statws Imiwneiddio<br><br>Mae arolygiad Rheoli Heintiau wedi'i | Dirprwy Reolwr y Practis<br><br>Rheolwr y Practis/Dirprwy | 31/12/2018<br><br>31/01/2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| trefniadau glanhau domestig y practis er mwyn sicrhau bod y trefniadau cyfredol yn addas ac yn golygu y gall y practis gael ei lanhau'n effeithiol ac yn drylwyr. | | gynnal a thynnwyd sylw at y ffaith y dylai'r eiddo gael ei lanhau'n ddyddiol. Mae'r tîm rheoli yn mynd i'r afael â'r trefniadau staffio ar hyn o bryd gyda chymorth yr adran adnoddau dynol er mwyn dod o hyd i ateb i hyn. Yn y cyfamser, mae'n ceisio dod o hyd i wasanaeth glanhau ychwanegol. | Reolwr y Practis<br><br>Rheolwr y Practis/Dirprwy Reolwr y Practis | 31/01/2019 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyffuriau yn cael eu storio'n ddiogel yn y practis er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig. | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau | Dylai'r cwpwrdd cyffuriau gael ei gloi bob amser a dylai'r allwedd gael ei chadw mewn lle diogel. | Rheolwr Nyrsio | Cwblhawyd |
| Dylai'r bwrdd iechyd gyflwyno archwiliad o gofnodion cleifion er mwyn sicrhau bod safon y cofnodion hynny'n parhau i wella a'u bod yn cydymffurfio â safonau a chanllawiau proffesiynol. | 3.5 Cadw cofnodion | Bydd yr Arweinydd Clinigol yn cynnal archwiliad o gofnodion cleifion ac yn trafod y canfyddiadau â phob clinigydd er mwyn helpu i sicrhau gwelliant. | Arweinydd Clinigol | 31/01/2019 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen i'r bwrdd iechyd ddatblygu cynllun datblygu practis.<br><br>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu'r | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Caiff Cynllun Datblygu Practis ei sefydlu. | Arweinydd Clinigol/Rheolwr y Practis | 30/04/2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| trefniadau rheoli sydd ar waith yn y practis er mwyn penderfynu a ydynt yn diwallu anghenion y practis. | | Caiff dadansoddiad o anghenion hyfforddiant ei gynnal, gyda Rheolwr y Practis a Dirprwy Reolwr y Practis yn nodi unrhyw fylchau ac yn buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad priodol. | Pennaeth y GMS | 31/02/2019 |
| Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau priodol wedi'u cynnal ar staff er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w cyflogi o hyd.<br>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC sut y bydd yn mynd ati i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rolau a'u dyletswyddau. | 7.1 Y gweithlu | Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal ar bob aelod o'r staff a drosglwyddwyd pan gafodd y Practis ei drosglwyddo i reolaeth y bwrdd iechyd, gyda chymorth yr adran adnoddau dynol.<br>Mae'r BILI wedi sicrhau y gall y staff a drosglwyddwyd fynychu sesiwn sefydlu'r Bwrdd Iechyd a fydd yn sicrhau eu bod yn cael yr un hyfforddiant â phob aelod newydd o staff. Bydd y Practis yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiwn sefydlu. | Dirprwy Reolwr y Practis<br>Dirprwy Reolwr y Practis | 31/12/2018<br>01/02/2019 |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Pamela Parker**

**Teitl swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 17/10/2018**